Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **9 Mai 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-05/16: Presennol
Cadeirydd Cyng. W A Evans
Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader
Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. R T Price; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Elizabeth George

2-05/16: Ymddiheuriadau
Cyng. Liz Regan; Cyng. Dafydd Lloyd

3-05/16: Datgan diddordeb
Dim.

4-05/16: Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Tref

a. Ethol Cadeirydd
Etholwyd Cyng. Robert Cadwalader yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2016-17.

b. Ethol Is-Gadeirydd
Etholwyd Cyng. Sian Williams yn Is-Gadeirydd y Cyngor am 2016-17.

c. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog
Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog presennol fel sail ar gyfer 2016-17.

d. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol
Roedd Unllais Cymru wedi cyhoeddi Rheoliadau Ariannol newydd, ond yr oedd rhain bellach wedi cael eu ad-alw gan fod nifer o ddiwygiadau pellach angen eu gwneud er mwyn cynnwys y sefyllfa gyfreithol lawn. Bydd Unllais Cymru yn danfon y rheoliadau diwygiedig at gynghorau cymuned cyn gynted ag y bo modd, i'w mabwysiadu felly yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

e. Cadarnhau Asesiad Risg o eiddo'r Cyngor Tref
Yn unfrydol derbyniwyd yr Asesiad Risg.

f. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

Is-bwyllgor Cyllid
Cyng. R T Price; Dr E Tudor Jones; Elizabeth George; Henry Jones

Is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth
Cadeiryd; Is-Gadeirydd; Cyng. Wayne Roberts; Phil Jones; W A Evans; Dafydd Lloyd

Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa
Cadeirydd Robert Cadwalader; Cyng. Dafydd Lloyd

Criccieth yn ei Blodau
Cyng. Sian Williams; Dafydd Lloyd; Phil Jones fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu

Pwyllgor yr Heddlu
Cyng. Henry Jones

Unllais Cymru
Cadeirydd

Pwyllgor Mwynderau (Llwybrau, Nadolig, Traethau)
Cadeirydd, Is-Gadeirydd; Cyng. Henry Jones, W A Evans, Phil Jones, Eirwyn Williams

Pwyllgor Grantiau
Holl aelodau'r Cyngor.

Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Treferthyr
Cyng. Sian Williams

5-05/16: Cadarnhau cofnodion mis Ebrill
Cadarnhawyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

6-05/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- Ad-dalu Costau Cynnal Llwybrau Cyhoeddus: Derbyniwyd lythyr oddi wrth Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd yn hysbysu cynghorau cymuned y bydd yna doriad o £110,000 yng nghyllideb y gwasanaeth hawliau tramwy. O ganlyniad, eleni clustnodir uchafswm yn yr ad-daliad gall gynghorau eu hawlio yn ôl o gostau cynnal llwybrau – yn achos Criccieth, yr uchafswm fydd £487.79. Mae'n debygol gall y trefniant ad-dalu yma gael ei ddiddymu ymhellach yn y dyfodol. Rhoddir yr eitem yma ar raglen mis Mehefin.
- Grŵp Dawns yr Urdd, Ysgol Treferthyr: Derbyniwyd lythyr gan ddisgybl o Ysgol Treferthyr, cynrychiolydd grŵp dawns yr ysgol a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gostau cludiant a gwisgoedd. O ran egwyddor, nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i hyn a rhoddir yr eitem ar raglen mis Mehefin i'w drafod yn llawn.
- Llythyr gan Mr Rabouhans, trefnydd seremoni'r French Commandos: Roedd wedi danfon geiriau anthemau Cymru, Prydain a Ffrainc yn i'r rhai a fydd yn mynychu'r seremoni,. Cadarnhawyd y bydd y Cyngor Tref yn gosod torch i goffhau'r milwyr. Er gwybodaeth – adroddwyd bod y palmant ger man dad-orchuddio'r gofeb bellach wedi ei drwsio.

7-05/16: Gohebiaeth

a.Trefniadau newydd ar gyfer Maes Parcio Abereistedd
Derbyniwyd lythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn amlinellu trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer meysydd parcio y sir, gan gynnwys maes parcio Abereistedd, sef i godi'r ffïoedd canlynol yn yr haf: £3 hyd at 4 awr; £4.50 hyd at 8 awr; £6.00 hyd at 12 awr; £7.50 hyd at 24 awr. Yr oedd hawl gan y cyhoedd i wrthwynebu'r gochymyn cyn ei weithredu. Cafwyd drafodaeth o sgîl-effeithiau'r drefn yma, a phenderfynwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cynlluniau yn gryf, oherwydd:

- Wrth osgoi talu'r ffi trwy barcio ar y ffyrdd cul cyfagos, bydd modurwyr yn ychwanegu i'r pwysau sydd yn barod ar y strydoedd hynny.
- Nid oedd yn glir pam fod isafswm y ffi yng Nghriccieth mor uchel o'i gymharu â'r mannau eraill a grybwyllir, ac nid oedd yn glir pam nad oedd bwriad i godi ffi mewn meysydd parcio mewn rhai rhannau eraill o'r sir – roedd hyn i weld yn anghyson.
- Roedd Criccieth yn hollol ddibynnol ar ymwelwyr, ac o ganlyniad i'r ffïoedd yma, roedd perygl felly y bydd pobl yn cael eu gwahardd rhag ddefnyddio llwybr yr arfodir ac rhag ymweld â'r dref ac aros yma.

b. Cais am gyfraniad ariannol – Gŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd Yr oedd yr ŵyl yn un cenedlaethol a oedd eleni i'w chynnal ym Mhlas Heli, Pwllheli.
Penderfyniad: gan yr oedd yn bolisi gan y Cyngor Tref ond i roi cyfraniadau ariannol i fudiadau a oedd yn gweithredu yn uniongyrchol yn y dref, neu yn trefnu digwyddiadau a fyddai'n cynnwys y dref, penderfynwyd i beidio rhoi cyfraniad yn yr achos hwn.

c. Rhaglen waith trafnidiaeth a phriffyrdd Cyngor Gwynedd
Gwaith ar y ffordd ger Cae Lloi Brith. Derbyniwyd yr wybodaeth.

d. Giât ar lwybr cyhoeddus Lôn Ddryll
Derbyniwyd neges oddi wrth Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd yn datgan pryder am y giât gan yr oedd yn arwain at lwybr a grisiau i lawr clogwyn a oedd wedi erydu yn beryglus. Nid Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y grisiau na'r giât, ac nid oedd yn glir os mai perchennog y Dryll oedd â chyfrifoldeb. Roedd yr aelod lleol wedi cael cyfarfod â pherchennog y Dryll, a oedd yn garedig iawn wedi cytuno i gloi/clymu'r giât. Cytunwyd y dylai'r berth a'r mieri gael eu gadael i dyfu dros y giât a'i gorchuddio. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu i'r Swyddog Morwrol i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf.

e. Llwybr 11
Nid oedd unrhyw ohebiaeth bellach wedi cyrraedd oddi wrth Gyngor Gwynedd. Roedd yr aelodau am danlinellu bod gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb i sicrhau bod y llwybr yn cael ei gynnal ac felly penderfynwyd i gysylltu yn ôl unwaith eto, a'u hatgoffa o'r gorchymyn a roddwyd arno.

f. Llwybr o Benaber i'r parc gwyllt
Nid oedd y Clerc eto wedi derbyn pris gan Gyngor Gwynedd i wneud y gwaith.

8-05/16: Ceisiadau Cynllunio

Cais C16/0405/35/LL
Gwaith peirianyddol er mwyn ehangu iard ar flaen yr eiddo ynghyd â chodi wal gynnal yn cynnwys canllaw gwydr. Plas Helyg, Ffordd Porthmadog, Criccieth, LL52 0HP
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

Cais C16/0413/35/CT
Gwaith tocio i 3 coeden dderw o fewn ardal gadwraeth. Tir ger 46 Gorseddfa, Criccieth, LL52 0DW
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad i docio canghennau yn unig, ond mae'r Cyngor yn gwrthwynebu torri rhannau helaeth o'r coed neu eu torri i lawr yn llwyr.

Cais am drwydded alcohol a cherddoriaeth fyw
Gwyl Fwyd Criccieth, Esplanade, Criccieth, LL52 0HV. Diwrnod yn unig i gyd-fynd â Gwyl Criccieth.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.

9-05/16: Prosiectau

Cymynrodd J T Roberts
Un prosiect buddiol i henoed y dref a drafodwyd, sef y posibilrwydd o ehangu'r maes parcio ger y ganolfan iechyd. Penderfynwyd i gael amcanbrisiau ar gyfer y gwaith er mwyn gallu trafod y

syniad ymhellach, ac i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r cymynrodd i ariannu'r prosiect. Penderfynwyd i gysylltu â'r Comisiwn Elusennau yn hynny o beth er mwyn derbyn cyngor.

Syniadau am brosiectau tref – cyffredinol

Penderfynwyd i gael prisiau gan gontractwyr i lenwi tyllau ar hyd llwybr y Dryll, ac i beintio'r cysgodfannau ger Abereistedd.

Digwyddiadau prosiect traeth

Penderfynwyd i gael diwrnod clirio sbwriel dros yr haf, ac i gyd-gysylltu â Catrin Glyn, swyddog y prosiect, a Cadw Cymru'n Daclus, i drefnu hyn.

Tynnodd yr aelod lleol sylw at y ffaith bod coelcerthi mawr wedi eu codi ar y traeth ger Morannedd, a phe baent yn cael eu cynnu, byddai yna risg o'r tân yn ymledu. Penderfynwyd i gysylltu â Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at hyn.

10-05/16: Tir gyferbyn â'r George: Cyfarfod maes

Cyfarfu'r aelodau â Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i drafod y darn tir. Tynnwyd sylw at y sbwriel a oedd yn y coed, ond gan nad oedd y tir yn ddigon blêr, nid oedd y Cyngor yn medru cymryd camau cyfreithiol. Roedd y swyddog yn mynd i ysgrifennu at y perchnogion i ofyn iddynt i dacluso, ond nid oedd y Cyngor yn gallu gwneud mwy na hyn.

Roedd yna dair goeden wedi pydru wrth ymylon y maes parcio, ac mewn cyflwr peryglus. Roedd aelod wedi ysgrifennu at y perchnogion i dynnu eu sylw at y broblem, ac roeddent wedi ysgrifennu nôl yn gofyn am lun er mwyn gallu asesu'r sefyllfa.

11-05/16: Gwasanaeth Llyfrgelloedd (Cyng E Williams)

Roedd yr aelod lleol wedi cael cyfarfod â swyddogion Cyngor Gwynedd a wnaeth adrodd bod y Cyngor am barhau i gynnal gwasanaeth llyfrgell yn y dref, drwy gynnig yr opsiynau canlynol:

- Gofyn iI'r Cyngor Tref i gymryd cyfrifoldeb dros adeilad y llyfrgell, a'r cynnal a chadw, tra byddai Cyngor Gwynedd yn parhau i weinyddu'r gwasanaeth llyfrgell a chyflogi'r llyfrgellydd.
- Gofyn i elusen/mudiad lleol i gymryd cyfrifoldeb dros adeilad y llyfrgell, a'r cynnal a chadw, tra byddai Cyngor Gwynedd yn parhau i weinyddu'r gwasanaeth llyfrgell a chyflogi'r llyfrgellydd
- Codi'r praesept er mwyn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn medru parhau i gynnal a chadw'r adeilad.
- Ail-leoli'r llyfrgell i Encil y Coed, gyda Chyngor Gwynedd yn cymryd cyfrifoldeb dros redeg yr adeilad o ddydd i ddydd ac yn cynnal y gwasanaeth llyfrgell.

Trafodwyd yr opsiynau, ac roedd yna deimlad cyffredinol ymhlith yr aelodau mai'r opsiwn olaf fyddai'r un mwyaf ymarferol. Nid oedd yn glir beth a fyddai felly yn digwydd i adeilad presennol y llyfrgell, na phwy oedd yn berchen y tir – roedd adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn mynd i edrych mewn i hyn.

Roedd Catrin Thomas, uwch-swyddog dysgu cymunedol Cyngor Gwynedd, am ddod i gyfarfod o'r Cyngor Tref i drafod hyn ymhellach. Byddai'r argymhellion terfynol yn cael eu rhoi o flaen Cabinet y Cyngor yn yr hydref. Penderfynwyd i roi gwahoddiad i'r swyddog i ddod i gyfarfod Mehefin o'r Cyngor Tref.

12-05/16: Cefn Castell

Roedd y mater yma – sef y cerrig a phridd a luchiwyd i lawr i'r traeth gan berchnogion Cefn Castell er mwyn ceisio atal y clowgyn rhag erydu – bellach yn nwylo swyddogion gorfodaeth a SoDdGA (SSSIs) Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd wedi cysylltu â'r perchnogion.

13-05/16: Derbyniadau

Praesept, taliad cyntaf (Cyngor Gwynedd, 2016-17) £17,000.00

19-04/16: Taliadau

- Costau'r clerc (i fyny at fis Mawrth 2016) £ 354.17
- Cyllid y Wlad (PAYE) £ 76.60
- Cyflog y Clerc £306.74
- Yswiriant Flynyddol y Cyngor (AON) £1,453.17

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun,13 Mehefin 2016**

** Bydd y rhaglen yma yn cau **3 Mehefin 2016** **